

Cynefin ar y Cae: O Gemau Traddodiadol Cymru i Ogledd Awstralia

(Ysgrifennodd Gwenno'r erthygl hon ar ôl cysylltu â Campau Celtaidd Cymru drwy'r wefan hon. Os hoffech chi gyfrannu at ein gwaith cysylltwch â ni yma.)

Fy enw i yw Gwenno Iolo Davies. Cefais fy ngeni a’m magu yn Ne Cymru ac mae chwaraeon a’r awyr agored wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd ers pan o’n i’n blentyn. Dwi’n dod o deulu actif, a doedd dim penwythnos yn mynd heibio heb fod y teulu yn cerdded y Bannau Brycheiniog, yn beicio’r llwybr Afon Taf, neu’n mynd o un lle i’r llall ar gyfer ymrwymadau chwaraeon. Nid yw hi’n syndod felly fy mod i wedi dewis gyrfa ym myd Addysg Gorfforol ac Addysgu yn yr Awyr Agored.

Dwi’n falch iawn o fod yn Gymraes, ac mae byw mor bell o gartref wedi gwneud i mi werthfawrogi hynny hyd yn oed yn fwy. Hyd yn oed nawr, fwy na 14,000 cilomedr o Gymru, dwi’n dal i ddefnyddio’r Gymraeg bob dydd. Mae’r tirwedd, yr iaith, y diwylliant a’r syniad o *gynefin* i gyd yn rhan o bwy ydw i.

Astudiais Addysg Gorfforol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, cyn mynd ymlaen i Brifysgol Bangor i wneud fy Nghwrs TAR mewn Addysg Gorfforol. Erbyn hyn, mae fy ngyrfa wedi mynd â fi i wahanol rannau o’r byd.

Dros y blynyddoedd, dwi wedi cael y cyfle i weithio gyda chydweithwyr ym maes Addysg Gorfforol yn Awstralia, Seland Newydd a’r Dwyrain Canol. Rydyn ni wedi rhannu syniadau ac arferion, trafod gwahanol ddulliau o ddysgu ac addysgu ac edrych ar sut mae Addysg Gorfforol yn gallu ymateb i’r syniad ‘cynefin’.

Ar hyn o bryd, dwi’n dysgu yn Taminmin College yn Nhiriogaeth y Gogledd, Awstralia, lle dwi’n gweithio gyda myfyrwyr Cynfrodorol Awstralia, gan gynnwys myfyrwyr o gymunedau Ynysoedd Torres Strait ac Ynysoedd Tiwi.

Mae gweithio yn Nhiriogaeth y Gogledd ac ymgolli yn ei thraddodiadau wedi rhoi cyfle unigryw i mi ddod i ddeall diwylliannau Cynfrodorol Awstralia yn well. Mae’r diwylliannau hyn, sydd wedi ffynnu ers degau o filoedd o flynyddoedd, yn adlewyrchu’r cysylltiad dwfn rhwng y gymuned, y wlad a hunaniaeth y bobl.

Wrth weithio gyda chymunedau Cynfrodorol, rwyf wedi gweld sut y gall chwaraeon gryfhau’r berthynas rhwng pobl a’u cynefin. Mae hyn wedi gwneud i mi sylweddoli bod ’na le i rywbeth dyfnach o fewn Addysg Gorfforol, rhywbeth sy’n mynd y tu hwnt i weithgarwch corfforol yn unig.

Mae rhaglenni fel STARS, sy’n darparu mentora a chymorth yn yr ysgol i ferched a menywod ifanc Cynfrodorol, wedi dangos i mi sut y gall chwaraeon gefnogi pobl ifanc a’u cymunedau. Drwy ddefnyddio chwaraeon fel ffordd o feithrin hyder, arweinyddiaeth a chysylltiad, mae STARS yn helpu merched ifanc i ddatblygu ymdeimlad cryfach o berthyn a chreu cyfleoedd newydd i’w dyfodol.

Dwi hefyd wedi cael sgysiau gydag athrawon Addysg Gorfforol yn Seland Newydd am y ffordd mae diwylliant a hunaniaeth Māori yn cael eu cynnwys mewn gwersi Addysg Gorfforol. Mae hynny wedi gwneud i mi ofyn:

Sut allwn ni wneud rhywbeth tebyg gyda diwylliant Cymreig?

I mi, mae'r cysylltiad hwnnw'n mynd yn ôl at *cynefin*, ac yn bwysicach fyth, at y cysylltiad rhwng *cynefin* a chwaraeon.

Dwi wedi bod yn ffodus iawn i addysgu uned gyfan ar gemau traddodiadol Cynfrodorol Awstralia, ac mae'r profiad hwn wedi gwneud i mi feddwl am sut y gallwn ddod â'n gemau a'n traddodiadau Cymreig i mewn i wersi Addysg Gorfforol.

Yn ein cwricwlwm yng Nghymru, mae pwyslais mawr ar chwaraeon sefydledig, ond ychydig o le sydd i'n gemau traddodiadol Cymreig ein hunain. Dwi eisiau newid hynny, gan ddefnyddio chwaraeon i ddod â straeon, hanes a diwylliant Cymru yn fyw ar gae'r ysgol. Y gobaith yw y bydd myfyrwyr, drwy chwarae'r gemau hyn, yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u gwreiddiau ac yn falch o'u treftadaeth.

Dod â gemau Cymreig i Awstralia

Arweiniodd hyn fi at ymchwilio i gemau traddodiadol Cymreig fel Cnapan, Pêl Law a Bando. Cysylltais â Campau Celtaidd Cymru, lle cefais gyfle i siarad â Steve Lake. Rhannodd adnoddau gwybodaeth gyda mi, a chawsom sgysiau ysbrydoledig am sut y gellid dod â'r gemau hyn i gynulleidfa newydd.

Gyda'i gefnogaeth a'r adnoddau a rannodd gyda mi, llwyddais i droi fy syniad o ddod â chwaraeon Cymreig i Dirioegaeth y Gogledd yn realiti.

Roedd Cnapan yn arbennig o ddiddorol i mi oherwydd y cysylltiadau posib â chwaraeon sydd eisoes yn gyfarwydd i fyfyrwyr Awstralia sef AFL. (Aussie Rules Football)

Mae fy mhartner, Shane, yn Wyddel, felly mae pêl-droed Gaeleg a Hurling hefyd wedi dod yn rhan fawr o fy mywyd. Mae gan gemau Gaeleg le pwysig mewn cymunedau ac ysgolion yn Iwerddon. Yma yn Awstralia, dwi wedi gweld diwylliant chwaraeon yr un mor gryf o gwmpas AFL.

Gwnaeth hyn i mi feddwl tybed a allem gyflwyno Cnapan i wers Addysg Gorfforol ar ffurf AFL, gan droi'r gêm yn gyfle i bobl ifanc brofi chwaraeon Cymreig a dysgu am hanes a diwylliant Cymru ar yr un pryd. Nid ail-greu'r gêm yn berffaith oedd y nod, ond ei defnyddio fel cerbyd i ddysgu'n ddyfnach am hanes a diwylliant Cymru.

Gall chwaraeon weithiau ymddangos yn rhywbeth cyffredinol, boed hynny mewn gwrs Addysg Gorfforol yn yr ysgol neu mewn sesiwn ymarfer ar gae'r gymuned y tu allan i'r ysgol. Gall pêl, bibiau a grŵp o bobl ddod at ei gilydd bron unrhyw le. Ond mae'r pethau cyffredin hynny yn rhan o rywbeth pwysicach. Mae'n ffordd o drosglwyddo traddodiadau, straeon a gwerthoedd o un genhedlaeth i'r llall.

Mae gemau Cynfrodorol yn Awstralia, gemau Gaeleg yn Iwerddon a gemau traddodiadol yng Nghymru i gyd yn dangos sut y gall gweithgarwch corfforol helpu i feithrin hunaniaeth ddiwylliannol gref ac ymdeimlad o berthyn.

Mae teithio wedi atgyfnerthu'r balchder sydd gen i tuag at fod yn Gymraes. Mae dod â Cnapan, Pêl Law a Bando i mewn i'm haddysgu yn ffordd fach o ddod â Cymru gyda fi.

Dwi'n gobeithio y gallaf ddod â'r profiadau hyn adref ryw ddydd. Byddai'n freuddwyd gen i ddefnyddio'r hyn dwi wedi'i ddysgu o wahanol ddiwylliannau, systemau addysg a thraddodiadau chwaraeon i gyfrannu at ddatblygu Addysg Gorfforol yng Nghymru.

O Gymru i Ogledd Awstralia, efallai bod y gemau'n wahanol, ond mae'r cysylltiad rhwng chwaraeon, y gymuned a'r cynefin yn parhau.

Roedd gweld myfyrwyr Cynfrodorol yn defnyddio geiriau Cymraeg fel "yma", "rhydd" a "gôl" wrth chwarae yn brofiad arbennig iawn i mi. Mae'n dangos sut gall chwaraeon ddod â diwylliant ac ieithoedd ynghyd.

Trwy chwaraeon, o *bydded i'r heniaith barhau*.